# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

**RHAN 2**

LLYWODRAETHU YSGOLION

**PENNOD 2**

HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR A CHLERCOD A DARPARU CLERCOD

**25 Dyletswydd awdurdodau lleol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i glercod**

(1) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau bod unrhyw hyfforddiant y mae'r awdurdod yn barnu ei fod yn angenrheidiol yn cael ei roi ar gael i bob person sy'n cael ei benodi'n glerc i alluogi'r corff a benododd y clerc o dan adran 23 o Ddeddf Addysg 2002 i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan adran 24 o'r Mesur hwn.

(2) Caiff awdurdod lleol yng Nghymru godi ffi am unrhyw hyfforddiant a ddarperir (a chaiff godi ffioedd gwahanol mewn achosion gwahanol).

(3) Yn yr adran hon, ystyr “clerc” yw clerc i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 33(2)**

**I2** A. 25 mewn grym ar 22.8.2013 gan O.S. 2013/2090, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 25.